

Cyfrifiaduron a'r Rhyngrwyd



Mynediad

Mae cyfrifiaduron ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd am ddim yn holl lyfrgelloedd Sir y Fflint, ar wahân i lyfrgelloedd symudol. Gallwch logio ymlaen i gyfrifiadur trwy ddefnyddio eich cerdyn Llyfrgell Sir y Fflint a'ch rhif PIN. Mae sesiynau yn awr o hyd a gellir eu hymestyn os nad oes galw mawr. Os nad ydych yn aelod o Lyfrgell Sir y Fflint, neu os nad yw eich cerdyn gyda chi, gofynnir i chi roi prawf o bwy ydych a'ch cyfeiriad cyn logio ymlaen fel ymwelydd. Mae sesiynau ymwelwyr yn 30 munud o hyd ac nid oes modd eu hymestyn fel arfer.

Fe all plant dros 11 oed ddefnyddio cyfrifiaduron ar eu pennau eu hunain ar yr amod bod rhiant neu warcheidwad wedi llenwi ffurflen ganiatâd. Mae'n rhaid i blant iau fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol ar bob adeg wrth ddefnyddio cyfrifiadur.

Mae'r rhwdwaith 'WiFi' ar gael yn llyfrgelloedd Bwcle, Cei Conna, y Fflint, Treffynnon ac yn yr Wyddgrug. Rhaid i chi ddangos eich cerdyn aelodaeth, neu prawf pwy ydych a'ch cyfeiriad. Bydd y sesiynnau 'WiFi' fel arfer yn parhau hyd at chwarter awr cyn cau'r llyfrgell. Caiff enw defnydd a chyfrinair unigryw eu darparu i chi gan aelod o staff fesul sesiwn. Nid yw'n bosib gallu defnyddio ein cyfleusterau printio trwy 'WiFi'. [Amodau a thelerau defnydd y gwasanaeth WiFi.](#)

Gwasanaethau

Yn ogystal â phrosesu geiriau a chymwysiadau swyddfa eraill, gellir defnyddio cyfrifiaduron i gael mynediad at y rhyngrwyd a gwasanaethau e-bost ar y we fel hotmail neu gmail. Mae pob cyfrifiadur yn llyfrgelloedd Sir y Fflint yn cynnig mynediad i [gatalog ar-lein](#) Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Sir y Fflint ac amrywiaeth eang o [adnoddau cyfeiriol ar-lein](#) i helpu gydag ymchwil, astudio a hamdden.

Mae allbrintiadau o gyfrifiaduron llyfrgell yn 20c y daflen ar gyfer du a gwyn, 35c am daflen lliw. Mae sganwyr ar gael at ddefnydd y cyhoedd hefyd mewn llyfrgelloedd mwy. Nid oes tâl am gadw delwedd wedi'i sganio ar ddyfais storio neu ei hanfon trwy eich e-bost.

Cefnogaeth

Gall staff llyfrgell roi cymorth sylfaenol wrth ddefnyddio cyfrifiaduron ac offer TG arall a ddarperir gan y llyfrgell. Efallai na fyddant yn gallu helpu gydag offer y bydd defnyddwyr y llyfrgell eu hunain yn dod i'r llyfrgell.

O dro i dro bydd y gwasanaeth llyfrgell yn cynnig amryw o sesiynau blasu ar ddefnydd sylfaenol o gyfrifiaduron, y rhyngwyd ac e-bost. Caiff y rhain eu hysbysebu yn y llyfrgelloedd lle cânt eu cynnal. Fe all llyfrgelloedd hefyd ddarparu gwybodaeth ar y cyrsiau cyfrifiaduron eraill a chysylltiadau gyda darparwyr hyfforddiant lleol.

Os oes gennych anghenion arbennig ar gyfer cael mynediad at y cyfrifiaduron, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ni ein gorau i'ch helpu.